

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

ATODLEN TALIADAU CYDNABYDDIAETH YR AELODAU 2021/2022

Gwneir y Cynllun hwn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sy'n berthnasol i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

1. Cyflog Sylfaenol

- 1.1 Rhaid talu Cyflog Sylfaenol i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.
- 1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid adolygu cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn flynyddol fel y'i pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 1.3 Pan fydd tymor swydd Aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r Cyflog Sylfaenol yn pro-rata.
- 1.4 Ni fydd mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

- 2.1 Bydd Aelodau sy'n llenwi swyddi penodol yn cael Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.
- 2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid adolygu cyfraddau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn flynyddol fel y'i pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.
- 2.4 Ni ellir talu Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.
- 2.5 Telir yr holl Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cynnwys Cyflog Sylfaenol.
- 2.6 Ni chaiff Uwch Gyflog ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac na all fod yn fwy na 50 y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys deiliad swydd Uwch Gyflog dros dro i lenwi bwlch dros dro oherwydd absenoldeb teuluol y deiliad swydd penodedig.
- 2.7 Ni all Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog Band 1 (Arweinydd/Dirprwy Arweinydd) neu Fand 2 (Aelod Cabinet) dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol nac Awdurdod Tân ac Achub y cafodd ei benodi iddo. Bydd yn parhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliadaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub.
- 2.8 Pan fydd tymor Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r Cyflog yn pro-rata.

3. Dewis ymwrthod â'r hawl i lwfans

- 3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, ddewis yn bersonol i ymwrthod ag unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

4. Atal Aelod dros dro

- 4.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf

Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, mae'r rhan o'r Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo dros y cyfnod y caiff ei atal dros dro yn cael ei dynnu gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

- 4.2 Pan fo Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog yr Aelod am gyfnod yr ataliad dros dro (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r ataliad dros dro rhannol yn ymwneud ag elfen gyfrifoldebau'r cyflog yn benodol, gall yr Aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

- 5.1 Pan fo unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi'i dalu i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig o fewn unrhyw gyfnod y mae'r Aelod dan sylw:
- (a) wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod/Aelod Cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau dan y Ddeddf honno;
 - (b) yn peidio â bod yn Aelod neu Aelod Cyfetholedig o'r Awdurdod; neu
 - (c) heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi yn y cyfnod hwnnw mewn unrhyw ffordd arall,

bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y rhan o'r lwfans sy'n ymwneud â'r cyfnod hwnnw yn cael ei ad-dalu.

6. Taliadau

- 6.1 Bydd pob lwfans yn cael ei dalu gan Reolwr y Gyflogres drwy randaliadau cyfwerth ag un rhan o ddeuddeg o hawliau blynyddol yr Aelod ar 15^{fed} diwrnod pob mis.
- 6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei ad-dalu.
- 6.3 Mae pob taliad yn ddarostynedig i'r didyniadau treth ac Yswiriant Cenedlaethol priodol.

7. Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

- 7.1 Bydd cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn cael ei dalu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofalu am blant neu oedolion dibynnol, neu ofynion gofal personol, ar yr amod bod yr Aelod yn mynd i gostau oherwydd darparu'r gofal wrth ymgymryd â dyletswyddau 'cymeradwy' y Cyngor.
- 7.2 Mae dyletswyddau "cymeradwy" y Cyngor mewn perthynas â thaliadau a wneir o dan y paragraff hwn yn cynnwys y rhai a nodir yn Atodlen 2, a gall hefyd gynnwys:
- (a) cyfarfod sy'n angenrheidiol i waith yr Aelod mewn perthynas â chyfrifoldebau etholaeth neu ward sy'n codi o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor; ac
 - (b) amser teithio a pharatoi sy'n codi o gyfarfodydd a gynhelir mewn perthynas ag
 - (a) uchod ac/neu a amlinellir yn Atodlen 2.
- 7.3 Mae cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn berthnasol mewn perthynas â dibynnydd o dan 16 oed, neu blentyn dan oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r Aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth y gall yr Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig ddangos bod angen gofal ar ei gyfer. Os oes gan Aelod neu Aelod

Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau gofal ar wahân.

- 7.4 Caiff Aelodau cymwys hawlio cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol ar gyfer costau gwirioneddol ac wedi'u talu, fel y nodir yn Atodlen 1. Dylid gwneud pob cais am gyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn ysgrifenedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan nodi amseroedd, dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Mae angen derbynebaw ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

8. Absenoldeb Teuluol

- 8.1 Mae gan Aelodau'r hawl, dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013, i gael cyfnod o absenoldeb teuluol ac, yn ystod hynny, os ydyn nhw'n bodloni'r amodau rhagnodedig, mae ganddyn nhw'r hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.
- 8.2 Wrth gymryd absenoldebau teuluol, mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol yn annibynnol ar eu cofnod presenoldeb yn syth cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.
- 8.3 Os bydd deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn yr uwch gyflog yn ystod cyfnod yr absenoldeb.
- 8.4 Os yw'r awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i benodi dirprwy i ymdrin ag absenoldeb teuluol deiliad uwch gyflog, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys os yw'r awdurdod felly'n penderfynu talu uwch gyflog.
- 8.5 Os yw'r dirprwyad am dâl yn arwain at yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'w uchafswm o uwch gyflogau, caniateir ychwanegu at yr uchafswm yn ystod y dirprwyad.

9. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

- 9.1 Bydd ffioedd dyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth am daliadau hanner diwrnod) yn cael eu talu i Aelodau Cyfetholedig, os ydyn nhw'n Aelodau Cyfetholedig statudol â hawliau pleidleisio.
- 9.2 Bydd taliadau Aelodau Cyfetholedig yn cael eu capio ar uchafswm cyfwerth â **10** diwrnod llawn y flwyddyn i bob pwyllgor y mae'r unigolyn yn cael ei gyfethol iddo.
- 9.3 Bydd taliadau'n rhoi sylw i amser teithio i leoliad y cyfarfod ac yn ôl, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
- 9.4 Dynodir y canlynol fel "swyddog priodol" a byddan nhw'n pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, telir y ffi ar sail y penderfyniad hwn.
- Y Swyddog Monitro o ran aelodau Cyfetholedig sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.
 - Y Rheolwr Archwilio Mewnol o ran aelodau Cyfetholedig sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.
 - Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd o ran aelodau Cyfetholedig sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Craffu Addysg.
- 9.5 Gall y swyddogion priodol bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu am ddiwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os bydd y cyfarfod yn gorffen cyn i bedair awr fynd heibio.
- 9.6 Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr.
- 9.7 Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel dros 4 awr.

9.8 Mae'r ffi ddyddiol a hanner diwrnod i Gadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y penderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi'i nodi yn **Atodlen 1**.

9.9 Mae'r ffi ddyddiol a hanner diwrnod i Aelodau Cyfetholedig statudol â hawliau pleidleisio eraill, fel y penderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi'i nodi yn **Atodlen 1**.

10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

10.1 Egwyddorion Cyffredinol

10.2 Mae gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yr hawl i hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod am 'ddyletswyddau cymeradwy', fel y nodir yn **Atodlen 2**. Pan fydd Aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod, disgwylir iddyn nhw deithio yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu effeithiolrwydd y gost, bydd amser y daith yn cael ei ystyried. Caiff hawliad gan Aelod nad yw'n teithio yn y modd fwyaf cost-effeithiol ei ostwng gan y swm priodol.

10.3 Lle bo'n bosibl, dylai Aelodau rannu trafndiaeth.

10.4 Dylai'r pellter a hawlir mewn milltiroedd fod y siwrnai resymol fyrraf ar hyd y ffyrdd o'r man ymadael i'r man lle mae'r ddyletswydd yn cael ei chyflawni ac, yn yr un modd, o fan cyflawni'r ddyletswydd i'r man dychwelyd.

10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth yr Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maen nhw'n destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

10.6 Pan fo Aelod wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo yn y cyfnod y mae wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol gael eu cadw gan yr Awdurdod.

11. Teithio mewn Cerbyd Preifat

11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai uchafswm y cyfraddau teithio sy'n daladwy fod y rhai sydd wedi'u pennu gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am ddefnydd preifat o geir, beiciau modur a beiciau pedal ac unrhyw dâl atodol o ran teithwyr.

11.2 Mae'r cyfraddau y filltir yn achos cerbydau preifat a benderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.

11.3 Pan fo Aelod yn defnyddio'i gerbyd preifat at ddiben dyletswyddau cymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio am ddefnydd busnes. Rhaid darparu tystiolaeth o'r yswiriant i'r Awdurdod ar gais.

12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus

12.1 Teithio ar Drên/Coets

Oni bai eu bod nhw wedi cael eu hawdurdodi fel arall, bydd tocynnau trên yn yr ail ddsbarth.

Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn prynu tocynnau trên a choets angenrheidiol ar ran Aelodau cyn y daith. Mewn amgylchiadau annhebygol pan fo angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, bydd y taliad yn cael ei ad-dalu ar ôl cyflwyno'r tocyn wedi'i ddefnyddio a/neu dderbynneb.

12.2 **Costau Tacsï**

Dim ond pan fo'r defnydd o dacsï wedi'i awdurdodi ar gyfer argyfwng, pan nad yw trafndiaeth gyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu os oes gan Aelod angen personol penodol y bydd costau tacsï yn cael eu had-dalu. Dim ond wrth dderbyn derbynneb y bydd yr arian yn cael ei ad-dalu.

12.3 **Costau Awyr (opsiynol)**

Mae teithio mewn awyren yn ganiataol os dyna'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o deithio. Bydd angen cael caniatâd y Prif Weithredwr a bydd Gwasanaethau Democrataidd yn prynu'r tocynnau.

12.4 **Teithio Tramor**

Dim ond â chaniatâd y Prif Weithredwr y bydd teithio tramor ar fusnes yr Awdurdod yn cael ei ganiatáu. Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu trafndiaeth a llety.

12.5 **Costau Teithio Eraill**

Mae gan Aelodau'r hawl i gael ad-daliad o ran ffioedd tollau, parcio, cadw car mewn garej dros nos a chostau angenrheidiol eraill sy'n ymwneud â'r daith. Dim ond wrth dderbyn derbynneb y bydd yr arian yn cael ei ad-dalu.

13. **Llety dros nos**

13.1 Dim ond pan fo busnes yr Awdurdod yn ymestyn dros ddau ddiwrnod neu fwy, neu os yw'r lleoliad mor bell i ffwrdd nad yw teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos yn rhesymol y bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu. Rhaid i bob arhosiad dros nos gael ei awdurdodi ymlaen llaw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

13.2 Gwasanaethau Democrataidd fydd yn trefnu llety dros nos. Lle bo'n bosibl, bydd llety dros nos yn cael ei dalu ymlaen llaw neu drwy anfoneb.

13.3 Dim ond mewn argyfwng y bydd Aelod yn cael archebu llety dros nos yn uniongyrchol. Dim ond wrth ddangos derbynneb, ac ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac nid yn uwch na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**, y bydd arian yn cael ei ad-dalu.

14 **Lwfans Cynhaliaeth**

14.1 Nodir y gyfradd gynhaliaeth ddyddiol i dalu costau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) yn **Atodlen 3**. Mae uchafswm y gyfradd ddyddiol yn cynnwys cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw brydau bwyd sy'n berthnasol, ar yr amod bod hawliad o'r fath yn cael ei ategu gan dderbynebau.

14.2 Ni wneir darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

15. **Hawliadau a Thaliadau**

15.1 Rhaid gwneud cais am lwfansau teithio a chynhaliaeth yn ysgrifenedig o fewn dau fis o ddiwedd y mis calendr y mae'r hawl i gael lwfansau yn codi ynddo a rhaid cynnwys y derbynebau perthnasol.

15.2 Bydd lwfansau'n cael eu talu gan Reolwr y Gyflogres drwy gredyd banc uniongyrchol.

16. Pensiynau

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

17 Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod

17.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i Aelodau gael eu darparu â chymorth digonol i gyflawni eu dyletswyddau a dylai'r cymorth ystyried anghenion penodol yr Aelodau unigol. Gofynnir i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y cymorth sy'n cael ei ddarparu i Aelodau a dylid mynd â cheisiadau am gymorth rhesymol i'r cyngor llawn.

17.2 Dylai cyfleusterau priodol o ran ffôn, e-bost a'r we i roi mynediad electronig at wybodaeth briodol gael eu darparu i bob Aelod Etholedig ac Aelod Cyfetholedig.

17.3 Dylai cymorth o'r fath fod heb unrhyw gost i unrhyw Aelod. Ni ddylid gwneud didyniadau o gyflogau Aelodau fel cyfraniad tuag at gost y cymorth y mae'r Awdurdod wedi'i benderfynu yn angenrheidiol er mwyn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Aelodau.

18 Cydymffurfiaeth

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i'r Aelodau a'r Aelodau Cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

Atgoffir Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fod hawliadau am gostau yn ddarostyngedig i archwiliad mewnol ac allanol.

ATODLEN 1

ATODLEN TALIADAU CYDNABYDDIAETH 2021-2022

AELODAU Â'R HAWL I GAEL CYFLOG SYLFAENOL

SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL

Aelodau etholedig canlynol yr Awdurdod

1.	Michael Adams	£14,368
2.	Elizabeth Aldworth	£14,368
3.	Alan Angel	£14,368
4.	John Bevan	£14,368
5.	Phillip Bevan	£14,368
6.	Carmen Bezzina	£14,368*
7.	Charlotte Bishop (o 7 Mai 2021)	£14,368
8.	Alan Collis	£14,368
9.	Donna Cushing (hyd at 13 Mai 2021)	£14,368
10.	Carl Cuss	£14,368
11.	Wynne David	£14,368
12.	Mike Davies	£14,368

13.	Kevin Dawson	£14,368
14.	Nigel Dix	£14,368
15.	Colin Elsbury	£14,368*
16.	Kevin Etheridge	£14,368
17.	Mark Evans	£14,368
18.	Andrew Farina-Childs	£14,368
19.	Christine Forehead	£14,368
20.	Elaine Forehead	£14,368
21.	James Fussell	£14,368
22.	Ann Gair	£14,368
23.	Rob Gough	£14,368
24.	David Hardacre	£14,368
25.	Lindsey Harding	£14,368
26.	David Harse	£14,368
27.	Derek Havard	£14,368
28.	Alan Higgs	£14,368
29.	Adrian Hussey	£14,368
30.	Martyn James	£14,368
31.	Vincent James	£14,368
32.	Leeroy Jeremiah	£14,368
33.	Gary Johnston	£14,368
34.	Barbara Jones	£14,368
35.	Stephen Kent	£14,368
36.	Gez Kirby (hyd at 12th Gorffennaf)	£14,368
37.	Arianna Leonard	£14,368
38.	Philippa Leonard	£14,368
39.	Brenda Miles	£14,368
40.	Sean Morgan (o 10 Mehefin)	£14,368
41.	Gaynor Oliver	£14,368
42.	Robert Owen	£14,368
43.	Lisa Phipps (o 8 Tachwedd 2021)	£14,368
44.	David Poole	£14,368
	dim cyflog rhwng 28 Mehefin a 28 Tachwedd 2021	
45.	Dianne Price	£14,368
46.	Denver Preece (o 14 Mai 2021)	£14,368
47.	John Roberts	£14,368
48.	Jon Scriven	£14,368
49.	Graham Simmonds	£14,368
50.	Julian Simmonds (hyd at 13 Mai 2021)	£14,368
51.	Steve Skivens	£14,368
52.	John Taylor	£14,368
53.	Carl Thomas	£14,368
54.	Andrew Whitcombe (hyd at 13 Mai 2021)	£14,368
55.	Lindsay Whittle	£14,368
56.	Tom Williams	£14,368
57.	Walter Williams	£14,368
58.	Ben Zaplatynski	£14,368

Mae'r Cynghorwyr gyda * wedi hepgor y cynnydd mewn cyflog ar gyfer 2021/22 ac mae hyn wedi parhau ar gyfer codiadau blaenorol.

**HAWL I GAEL UWCH GYFLOG
(GAN GYNNWYS CYFLOG SYLFAENOL)**

**SWM
BLYNYDDOL
YR UWCH
GYFLOG**

	RÔL	AELOD	
1.	Arweinydd y Cyngor Strategaeth a Chyfarwyddyd yr Awdurdod Cyfan	Phillippa Marsden	£49,974
2.	Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi a Menter wedi'i ailddynodi ar 13 Mai yn Ddirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi, Menter ac Isadeiledd	Sean Morgan hyd at 9 Mehefin 2021	£35,320
	Wedi'i ailddynodi'n Ddirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Isadeiledd, Trefi ac Eiddo	James Pritchard o 1 Gorffennaf 2021	£35,320
3.	Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawniad wedi'i ailddynodi ar 13 Mai yn Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden	Ross Whiting	£30,773
4.	Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol	Colin Gordon	£30,773
5.	Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid wedi'i ailddynodi ar 13 Mai yn Aelod Cabinet dros Wasanaethau i Gwsmeriaid, Perfformiad ac Eiddo Wedi'i ailddynodi'n Aelod Cabinet dros Berfformiad, yr Economi a Menter ar 1 Gorffennaf 2021	Eluned Stenner	£30,773
6.	Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol hyd at 8 Tachwedd 2021. Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Thai o 9 Tachwedd 2021	Shayne Cook	£30,773
7.	Aelod Cabinet dros Wastraff a Diogelwch y Cyhoedd wedi'i ailddynodi ar 13 Mai yn Aelod Cabinet dros Wastraff, Diogelwch y Cyhoedd a Strydoedd	Nigel George	£30,773
8.	Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo wedi'i ailddynodi ar 13 Mai yn Aelod Cabinet dros Dai	Lisa Phipps hyd at 8 Tachwedd 2021	£30,773
9.	Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd	John Ridgewell Hyd at 13 Mai 2021	£30,773
	Aelod Cabinet dros Gynaliadwyedd, Cynllunio a'r Fflyd	Andrew Whitcombe o 14 Mai 2021	

10.	Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Partneriaethau	James Pritchard hyd At 30 Mehefin 2021	£23,161
		Gez Kirby O 14 Gorffennaf 2021	£23,161
11.	Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd	Tudor Davies	£23,161
12.	Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg	Teresa Parry	£23,161
13.	Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol	Lyndon Binding hyd at 30 Ebrill 2021	£23,161
		Donna Cushing o 14 Mai 2021	£23,161
14.	Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu	Denver Preece hyd at 13 Mai 2021	£23,161
		Julian Simmonds o 14 Mai 2021	
15.	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio	Margaret Sargent	£23,161
16.	Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio	Roy Saralis	£23,161
17.	Arweinydd y Grŵp Gwrthblaid Mwyaf	Collin Mann	£23,161
18.	Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio	Andrew Whitcombe hyd at 13 Mai 2021	£23,161
		John Ridgewell o 14 Mai 2021	

Gellir talu uchafswm o (18) o uwch gyflogau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac ni ddaeth y tu hwnt i hyn.

		SWM
HAWL I GYFLOG DINESIG		BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG
RÔL	AELOD	

Pennaeth Dinesig (Maer/Cadeirydd)	Carol Andrews	£23,161
Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Faer/Gadeirydd)	June Gale	£18,108

HAWL FEL AEFLODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL

RÔL	AELOD	SWM LWFANSAU AELODAU CYFETHOLEDIG
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (hyd at 18 Tachwedd 2021)	Mr. D. Lewis	£268 – fi ddyddiol £134½ – ffi hanner Diwrnod
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr, Pwyllgor Craffu Addysg	Mrs. T. Millington	£210 – ffi ddyddiol £105 – ffi hanner Diwrnod
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr, Pwyllgor Craffu Addysg	Mr. G. James	£210 – ffi ddyddiol £105 – ffi hanner Diwrnod
Cynrychiolydd Eglwys, Pwyllgor Craffu Addysg	Mr. M. Western	£210 – ffi ddyddiol £105 – ffi hanner Diwrnod
Aelod Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau	Mr. P. Brunt	£210 – diwrnod llawn neu £105 am hanner diwrnod (hyd at 4 awr)
Aelod Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau	Y Cynghorydd Cymuned Mrs. G. Davies	£210 – diwrnod llawn neu £105 am hanner diwrnod (hyd at 4 awr)
Aelod Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau	Mr. J. Card	£210 – diwrnod llawn neu £105 am hanner diwrnod (hyd at 4 awr)
Aelod Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau	Mrs. L. Davies	£210 – diwrnod llawn neu £105 am hanner diwrnod (hyd at 4 awr)
Aelod Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau	Mr. C. Finn	£210 – diwrnod llawn neu £105 am hanner diwrnod (hyd at 4 awr)

Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

Pob Aelod

- Costau gofal ffurfiol (wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu fel y'u gwelir.
- Costau gofal anffurfiol (heb ei gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sydd cyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y Deyrnas Unedig ar adeg mynd i gostau.

NODER: Cynigir llinellau band eang gartref i'r holl Gynghorwyr neu byddan nhw'n cael allwedd ddiogel i'w galluogi nhw i gael mynediad i'w e-bost drwy Wi-Fi yn ôl eu dymuniad.

ATODLEN 2

Dyletswyddau cymeradwy:

- mynychu cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor yr Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo, neu unrhyw bwyllgor o gorff tebyg;
- mynychu cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;
- mynychu unrhyw gyfarfod arall a awdurdodir gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu ragor o Awdurdodau eraill;
- dyletswydd a gyflawnir at ddibenion neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Cabinet;
- dyletswydd a gyflawnir yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;
- dyletswydd a gyflawnir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth o'r Awdurdod sy'n rhoi grym i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwiliad o fangre, neu sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny;
- mynychu unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiad datblygiadol sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;
- y dyletswyddau canlynol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor:

NODER: Mae'r Cyngor wedi penderfynu peidio â chaniatáu ceisiadau am deithio o fewn Wardiau'r Aelodau [ac eithrio fel y nodir ym mharagraff 7].

ATODLEN 3

Cyfraddau milltiroedd

Pob maint cerbyd modur preifat

Hyd at 10,000 o filltiroedd

Dros 10,000 o filltiroedd

45 ceiniog y filltir

25 ceiniog y filltir

Beiciau modur preifat

Beiciau pedalau

Beiciau modur preifat

20 ceiniog y filltir

Gyda theithiwr

05 ceiniog y filltir

Lwfans Cynhaliaeth

Mae'r gyfradd gynhaliaeth ddyddiol hyd at uchafswm o £28 ac mae'n cynnwys cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw brydau bwyd os yw'n berthnasol, ar yr amod bod hawliad o'r fath yn cael ei ategu gan dderbynebau.

Ni chaniateir ad-dalu costau diodydd alcoholaidd.

Aros dros nos

Uchafswm y lwfansau am aros dros nos yw £200 yn Llundain a £95 yn rhywle arall. Mae uchafswm o £30 ar gael i aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

ATODLEN 4

Cydymffurfiaeth

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi'r cyfanswm a dalwyd i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig ar wefan y Cyngor, ynghylch cyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau erbyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n cyfeirio ati. Er budd tryloywder, bydd hyn yn cynnwys taliadau cydnabyddiaeth gan yr holl apwyntiadau gwasanaethau cyhoeddus a gynhelir gan Aelodau etholedig.
- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiad o gyfrifoldebau sylfaenol cynghorydd a swydd ddisgrifiadau deiliaid swyddi uwch gyflogau ar wefan y Cyngor, sy'n cydnabod y dyletswyddau disgwylidig yn glir.
- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi atodlen flynyddol o ran Taliadau Cydnabyddiaeth Aelodau erbyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati ar wefan y Cyngor.
- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r atodlen at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati.
- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau/Aelodau Cyfetholedig mewn cyfarfodydd y cyngor, cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau eraill cymeradwy y mae Aelod/Aelod Cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdany'n nhw.
- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i adroddiadau blynyddol wedi'u paratoi gan Aelodau gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Pan fydd yr Awdurdod yn cytuno i dalu dirprwy oherwydd absenoldeb teuluol, bydd yr Awdurdod yn hysbysu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, am y manylion gan gynnwys y swydd dan sylw a chyfnod y dirprwyad.